Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae Ysgol Gymraeg Blaendulais yn ysgol hapus, gartrefol a gofalgar sy'n annog disgyblion i fod yn falch o'u cymuned, eu diwylliant a'u Cymreictod. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn aeddfed ac yn barchus tuag at eraill ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae gan yr holl staff berthynas waith gynhyrchiol iawn â'r disgyblion, eu teuluoedd ac aelodau'r gymuned sy'n hyrwyddo agweddau positif o ran y dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn ymwybodol iawn o sut i ofalu am eu llesiant.



Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu ystod dda o brofiadau buddiol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu awyr agored y disgyblion ac i feithrin eu medrau. Mae'r pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafar disgyblion yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith lafar raenus a thafodiaith naturiol yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu sy'n atgyfnerthu a chymhwyso medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid ydynt bob tro'n  cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd. Yn ogystal, mae gor-arwain gan athrawon a chynorthwywyr ar adegau yn amharu ar ddatblygiad dysgu annibynnol disgyblion a'u medrau meddwl.



Er eu bod yn gymharol newydd i'w swyddi, mae'r pennaeth dros dro a'r dirprwy bennaeth dros dro yn cydweithio'n effeithiol â rhanddeiliaid i gynnal a gwella'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Gyda chefnogaeth egnïol cadeirydd y corff llywodraethol, mae arweinwyr a'r staff yn ymrwymo i gynnig y cychwyn gorau i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Blaendulais. Mae'r ethos tîm cryf iawn sy'n bodoli ar draws yr ysgol yn cefnogi hyn yn dda. Er bod arweinwyr yn llwyddiannus wrth wella elfennau penodol o'r ddarpariaeth, nid yw'r prosesau hunanwerthuso bob tro'n ddigon cadarn i adnabod yn glir yr hyn maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.

# Argymhellion

**A1** **Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

**A2** **Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu**

**A3** **Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 100 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 72 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 9.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 28% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 05/12/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.